# 3.15 a 4.15 – Troseddau Eiddo – Dwyn, Lladrad a Bwrgleriaeth

## Dwyn

Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn ***a.1 o Ddeddf Dwyn 1968***:

> *"Mae rhywun yn euog o ddwyn os yw'n perchnogi eiddo rhywun arall yn anonest, gyda'r bwriad o amddifadu'r llall ohono yn barhaol..."*

Actus reus dwyn yw:

- Perchnogi ***a.3***
  - ***A.3(1) o Ddeddf Dwyn 1968*** – 'Mae unrhyw ragdybiaeth gan unigolyn o hawliau perchennog yn gyfystyr â pherchnogi, ac mae hyn yn cynnwys pan fydd wedi cael gafael ar yr eiddo (yn ddiniwed neu beidio) heb ei ddwyn, unrhyw ragdybiaeth ddiweddarach o hawl iddo drwy ei gadw neu ei drin fel ei berchennog.'
  - **'Bwndel hawliau'** – ***R v Morris (1923)***.
  - Cydsyniad – ***Lawrence v MPC (1971)*** a ***R v Gomez (1993)***.
  - Rhodd – ***R v Hinks (2000)***.
- Eiddo ***a.4***
  - *"Mae eiddo yn cynnwys arian a phob eiddo arall, yn eiddo tirol neu bersonol, gan gynnwys pethau mewn achos a mathau eraill o eiddo anghyffwrdd ('intangible')."*
  - **Eiddo tirol** (tir, adeiladau ac ati, **a.4(2)**).
  - **Eiddo anghyffwrdd** (hawlfraint, patentau ac ati).
  - 'Peth ('**chose**') mewn achos.'
  - ***Oxford v Moss*** – nid oedd modd dwyn 'gwybodaeth'.
  - Pethau nad oes modd eu dwyn – **a.4(3)** ac **a.4(4)**.
- Yn perthyn i rywun arall, ***a.5***
  - *"Ystyrir bod eiddo yn perthyn i unrhyw un sydd â'r eiddo yn ei feddiant neu dan ei reolaeth, neu sydd ag unrhyw hawl neu fudd perchnogol drosto. . ."*
  - Mae'n cynnwys sefyllfaoedd pan fydd unigolyn yn berchen ar yr eiddo, ond hefyd pan fydd yr eiddo **yn ei feddiant neu dan ei reolaeth** neu pan fydd ganddo **hawl neu fudd perchnogol drosto**.
  - Felly, gall rhywun fod yn **atebol am ddwyn ei eiddo ei hun** (***R v Turner No .2 (1971)***).
  - Rhwymedigaeth i ddefnyddio'r eiddo mewn ffordd benodol, ***a.5(3)*** a ***Hall (1972)***.
  - Trosglwyddo eiddo drwy 'gamgymeriad' – ***a.5(4)*** ac ***Attorney General's Reference (No 1 of 1983) (1985)***.

**Mens rea dwyn** yw:

- **Anonestrwydd *a.2*** a phrawf ***Ghosh***. Diweddarwyd gan ***Ivey v Genting Casinos***.
- **Bwriad o amddifadu'n barhaol *a.6.*** ***Lloyd (1985)*** – benthyca eiddo dros dro a ***Velmuyl (1989)***.

Y ddedfryd fwyaf posibl am ddwyn yw saith mlynedd o garchar.

## Lladrad

Mae'r drosedd hon yn debyg i ddwyn, ond mae'n cynnwys y defnydd o rym wrth gyflawni'r dwyn.

Mae lladrad wedi'i ddiffinio yn ***Adran 8(1) o Ddeddf Dwyn 1968***.

> *"Mae rhywun yn euog o ladrad os yw'n dwyn, ac yn syth cyn y dwyn neu ar yr un pryd, ac er mwyn dwyn, yn defnyddio grym ar unrhyw unigolyn neu'n ceisio codi ofn ar unrhyw unigolyn drwy fygwth defnyddio grym yn ei erbyn."*

Mae'n drosedd **dditiadwy** sy'n golygu y gellir ei phrofi drwy dditiad yn **Llys y Goron**. Mae'n drosedd fwy difrifol na dwyn. Gall arwain at ddedfryd fwyaf posibl ar adeg euogfarnu o **garchar am oes**.

Mae rhai wedi galw'r drosedd yn fath o '**ddwyn gwaethygedig**', gan ei bod yn cynnwys trosedd dwyn YN OGYSTAL Â grym neu fygwth grym.

### Elfennau actus reus lladrad:

- Actus reus dwyn – ***R v Robinson (1977)***.
- Defnyddio grym neu fygwth grym er mwyn dwyn:
  - Rhaid defnyddio'r grym **er mwyn dwyn** AC **yn syth cyn y dwyn neu ar yr un pryd**. Unwaith bydd y weithred o ddwyn yn **gyflawn**, mae hyn yn cyfrif fel lladrad. Cadarnhawyd hyn yn achos ***Corcoran v Anderton (1840)***.
  - Mater i'r rheithgor yw penderfynu a oedd digon o rym, e.e. ***Dawson and James (1976)*** ac a gadarnhawyd yn ***Clouden (1987)***.
  - Defnyddio grym yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – ***R v Clouden (1987)*** a ***P v DPP (2012)***.
  - Mae dim ond ofn y grym drwy fygythiad neu ystum yn ddigonol.
- Yn syth cyn dwyn neu ar yr un pryd:
  - os yw'r weithred o ddwyn yn dal i barhau pan gaiff y grym ei ddefnyddio, gall fod yn gyfystyr â lladrad, e.e. ***Hale (1979)*** a ***Lockley (1995)***.
- Ar unrhyw berson.

**Mens rea lladrad:**

- Mens rea lladrad yw anonestrwydd a bwriad o amddifadu'r person arall o'r eiddo yn barhaol.
- Bwriad o ddefnyddio grym er mwyn dwyn.

## Bwrgleriaeth

*Deddf Dwyn 1968 – a.9(1)(a) ac a.9(1)(b)*

- Y ddedfryd fwyaf posibl am fwrgleriaeth yw 14 mlynedd o garchar
- Trosedd sy'n brofadwy neillffordd.

### Bwrgleriaeth o dan a.9(1)(a)

Bydd rhywun yn euog o fwrgleriaeth o dan a.9(1)(a) os bydd yn mynd i mewn i adeilad, neu unrhyw ran o adeilad, fel tresmaswr, gyda'r bwriad o naill ai: dwyn, peri GBH i unrhyw berson yn yr adeilad, neu gyflawni difrod troseddol.

### Actus reus bwrgleriaeth o dan a.9(1)(a)

Mae tair elfen i'r actus reus:

- mynd i mewn – ***R v Collins (1973), R v Brown (1985), Ryan (1996)***
- adeilad neu ran o adeilad – ***B and S v Leathley (1979)***, rhan o adeilad – ***Walkington (1979)***
- fel tresmaswr – ***Walkington (1979)***, caniatâd i fynd i mewn – ***Collins (1972), Smith and Jones (1976)***.

Mae dwy elfen i'r mens rea:

- bwriad neu fyrbwylltra i dresmasu
- bwriad cudd, h.y. bwriad o ddwyn, peri niwed corfforol difrifol neu ddifrodi'r adeilad neu ei gynnwys.

### Bwrgleriaeth o dan a.9(1)(b)

Mae rhywun yn euog o fwrgleriaeth o dan ***a.9(1)(b)*** os yw, <u>ar ôl mynd i mewn</u> i adeilad neu ran o adeilad fel tresmaswr, yn dwyn, yn ceisio dwyn unrhyw beth yn yr adeilad, neu'n peri neu'n ceisio peri niwed corfforol difrifol i unrhyw un y tu mewn iddo.

Mae pedair elfen i'r actus reus:

- mynd i mewn – ***R v Collins (1973), R v Brown (1985), Ryan (1996)***
- adeilad neu ran o adeilad – ***B and S v Leathley (1979)***, rhan o adeilad – ***Walkington (1979)***
- fel tresmaswr – ***Walkington (1979)***, caniatâd i fynd i mewn – ***Collins (1972), Smith and Jones (1976)***
- actus reus dwyn neu niwed corfforol difrifol, neu ymgais i ddwyn/peri niwed corfforol difrifol yno.

Mae dwy elfen i'r mens rea:

- bwriad neu fyrbwylltra i dresmasu
- mens rea dwyn neu niwed corfforol difrifol, neu ymgais i ddwyn/peri niwed corfforol difrifol yno.